

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

# Aseiad Iles Blaenafon

Aseiad Iles ar gyfer ardal leol Torfaen

Cyfeirnod y Ddogfen: T01  
Chwefror 2022

## Contents

|     |   |    |
|-----|---|----|
| 1   | Disgrifiad o'r ardal .....                  | 2  |
| 2   | Ynglŷn a Blaenafon .....                    | 3  |
| 3   | Lles Cymdeithasol .....                     | 4  |
| 3.1 | Ynglŷn â'r gymuned .....                    | 4  |
| 3.2 | Teithio o gwmpas .....                      | 5  |
| 3.3 | Mynediad i wasanaethau a throedd .....      | 7  |
| 3.4 | Tai, aelwydydd ac iechyd .....              | 9  |
| 4   | Economi .....                               | 14 |
| 4.1 | Addysg, sgiliau a gwaith .....              | 14 |
| 5   | Yr Amgylchedd .....                         | 17 |
| 6   | Diwylliant .....                            | 21 |
| 7   | Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym ..... | 24 |
| 8   | Cyfeiriadau .....                           | 26 |

## 1 Disgrifiad o'r ardal

Mae Blaenafon a'r ardal gyfagos yn ffurfio gogledd Torfaen. Mae Pont-y-pŵl i'r de, tref farchnad y Fenni i'r gogledd ddwyrain a Brynmawr a Blaenau'r Cymoedd i'r gogledd orllewin. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i leoli'n uniongyrchol i'r gogledd.

Sefydlwyd Blaenafon er mwyn defnyddio'r adnoddau glo a haearn anadnewyddadwy yn yr ardal, felly wrth i'r diwydiannau hynny ddirywio dros y 100 mlynedd diwethaf felly hefyd y gwnaeth ffyniant y dref.

Gyda'i **amgylchedd dramatig** a'i **asedau diwylliannol a hanesyddol** helaeth, a chyfoeth o **amrywiaeth ecolegol**, cafodd y dirwedd ddiwylliannol o amgylch Blaenafon ei rhestru gan UNESCO (Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig) yn Safle Treftadaeth y Byd yn 2000. Yn un o bedwar yn unig o Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a 32 ledled y DU, cydnabu UNESCO fod Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn un o'r prif feysydd yn y byd lle gellir astudio a deall proses gymdeithasol, economaidd a thechnolegol diwydiannu trwy gynhyrchu haearn a glo, yn gyfan gwbl.

Mae gan yr ardal, sy'n denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn, nifer o nodweddion treftadaeth pwysig sy'n gysylltiedig â'i gorffennol diwydiannol ac erbyn hyn mae'r dref yn enwog am Bwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Cymru, gwaith haearn sy'n dyddio o'r 18fed ganrif a Rheilffordd Treftadaeth Blaenafon.

Mae'r amgylchedd naturiol dramatig ac agosrwydd at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn denu llawer o gerddwyr, beicwyr a beicwyr mynydd i'r ardal.

Mae ei leoliad yn **nhir uchel y cymoedd** yn golygu bod Blaenafon yn gymharol anghysbell yn ddaearyddol. Er ei fod yn croesawu llawer o **ymwelwyr**, mae'r dref yn **fach** ac yn gweinyddu'r **boblogaeth leol** yn bennaf.






Ffigur 1: Canolfan Treftadaeth y Byd, Blaenafon



Ffigur 2: Offer Weindio, Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Cymru

## 2 Ynglŷn a Blaenafon

| <b>Ardal</b>   | <b>17.8 km<sup>2</sup></b> – tua <b>14%</b> o gyfanswm arwynebedd Torfaen sy'n 126km <sup>2</sup>   |      |      |             |             |             |             |             |
|--|---|------|------|-------------|-------------|-------------|-------------|-------------|
| <b>Poblogaeth</b><br> | Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn <b>6,500</b> - tua <b>7%</b> o gyfanswm poblogaeth Torfaen sy'n 94,000 <sup>1</sup> .   |      |      |             |             |             |             |             |
| <b>Dwysedd y Boblogaeth</b>  | Dwysedd y boblogaeth yw <b>3.65</b> person yr hectar, gyda mwyafrif y bobl yn byw ym Mlaenafon 1 a 2. Mae 7.45 o bobl yr hectar yn Nhorfaen <sup>2</sup> .  |      |      |             |             |             |             |             |
| <b>Anheddau</b><br>   | Nifer yr anheddau a gyfrifwyd yw <b>2,971</b> – tua <b>7%</b> o gyfanswm yr anheddau yn Nhorfaen sy'n 42,645 <sup>3</sup> .   |      |      |             |             |             |             |             |
| <b>Cyffredinol</b>   | Mae Blaenafon yn cynnwys 1 Ardal Gynnyrch Ehangach Ganol (MSOA), sy'n cynnwys 4 Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA). Wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai, gallwn weld unrhyw wahaniaethau a all effeithio ar les.  |      |      |             |             |             |             |             |
|  | <table border="1"> <thead> <tr> <th>LSOA</th> <th>MSOA</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Blaenafon 1</td> <td rowspan="4">Torfaen 001</td> </tr> <tr> <td>Blaenafon 2</td> </tr> <tr> <td>Blaenafon 3</td> </tr> <tr> <td>Blaenafon 4</td> </tr> </tbody> </table> | LSOA | MSOA | Blaenafon 1 | Torfaen 001 | Blaenafon 2 | Blaenafon 3 | Blaenafon 4 |
| LSOA   | MSOA  |      |      |             |             |             |             |             |
| Blaenafon 1  | Torfaen 001   |      |      |             |             |             |             |             |
| Blaenafon 2  |   |      |      |             |             |             |             |             |
| Blaenafon 3  |   |      |      |             |             |             |             |             |
| Blaenafon 4  |   |      |      |             |             |             |             |             |




Ffigur 3: Map o Flaenafon yn dangos y 4 LSOA.

### 3 Lles Cymdeithasol

#### 3.1 Ynglŷn â'r gymuned

Amcangyfrifir bod y boblogaeth gyffredinol ym Mlaenafon wedi **cynyddu** o ryw **690** o drigolion, o 5,760 yn 2001 i **6,450** yn 2019 (+ 12.0%), o gymharu â Chymru (+ 8.6%). Mae pob un o'r 4 LSOA ym Mlaenafon wedi gweld cynnydd yn y boblogaeth dros y cyfnod hwn, gyda'r mewnlfif net mwyaf o drigolion ym Mlaenafon 1 (+252)<sup>4</sup>.



Ffigur 5 Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 yn ôl oedran ar gyfer Blaenafon o gymharu â Chymru.

Trwy ddeall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol gall ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd lles allweddol.

Rhagwelir y bydd y boblogaeth gyffredinol yn Nhorfaen yn cynyddu 5.2% rhwng 2019 a 2043.<sup>5</sup> I Flaenafon byddai hyn yn golygu **336** o bobl ychwanegol<sup>6</sup>.

#### Gallai poblogaeth gynyddol ddenu a chynnal cynnig manwerthu yng nghanol y dref.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw yn Nhorfaen yn **gostwng 3%** rhwng 2019 a 2043, yn weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru<sup>7</sup>. I Flaenafon gallai hyn olygu **40 yn llai** o bobl yn yr ystod oedran hon<sup>8</sup>.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn Nhorfaen yn gostwng 14% erbyn 2036 ond yna'n dychwelyd i'w lefel yn 2019 erbyn 2043<sup>9</sup>.

#### Efallai y bydd Blaenafon y dyfodol yn denu trigolion newydd sy'n gallu gweithio gartref ac am fwynhau ffordd o fyw yn yr awyr agored.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n byw yn Nhorfaen yn **cynyddu 28%** rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru<sup>10</sup>. I Flaenafon gallai hyn olygu **340** o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran hon<sup>11</sup>.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a hŷn sy'n byw yn Nhorfaen yn **cynyddu 70%** rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i'r cyfartaledd yng Nghymru<sup>12</sup>. I Flaenafon gallai hyn olygu **100** o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran hon<sup>13</sup>.

Mae yna lawer o fuddion posib i les teulu a chymuned a hynny am fod pobl yn byw yn hirach.

**Gallai fod mwy o alw uwch am wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn y dyfodol.**

**Bydd poblogaeth sy'n heneiddio angen tai sy'n bodloni eu hanghenion.**

Nid yw'r data diweddaraf o gyfrifiad 2021 ar gael i'w ddefnyddio eto ond mae'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos:

|                          |   |
|--------------------------|---|
| <b>Siaradwyr Cymraeg</b> | Gall 10% o drigolion Blaenafon siarad Cymraeg sy'n llai na'r cyfartaledd yng Nghymru (19%). Mae'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ym Mlaenafon 1 (12.1%) ac mae'r isaf ym Mlaenafon 3 (8.5%). <sup>14</sup> |
| <b>Gwlad enedigol</b>    | Cafodd 88.6% o drigolion ym Mlaenafon eu geni yng Nghymru <sup>15</sup> .   |
| <b>Ethnigrwydd</b>       | Mae 63% o drigolion o ethnigrwydd Gwyn. Mae llai na 100 o bobl o ethnigrwydd nad yw'n Wyn <sup>16</sup> .   |
| <b>Crefydd</b>           | Mae 51.6% o drigolion yn nodi bod eu crefydd yn seiliedig ar Gristnogaeth. 60 o bobl yn unig sydd â chrefydd Anghristnogol. Nid oes gan 40.26% o drigolion ffydd crefyddol <sup>17</sup> .                  |

**Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r Gymraeg yn helpu i ddiogelu diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

Bydd galluogi pob rhan o'r gymuned i gymryd rhan yn yr ardaloedd lle maen nhw'n byw, a phenderfyniadau lleol yn helpu i gefnogi cymunedau cydlynol.

Mae Cyngor Tref Blaenafon wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen i ddatblygu cyllidebu cyfranogol gymunedol gyda ffocws ar gefnogi ffyrdd iach o fyw.

**Gall cyllidebu cyfranogol fod yn ffordd dda i i gataleiddio atebion a arweinir gan y gymuned sy'n gadael gwaddol cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

### 3.2 Teithio o gwmpas



Mae pobl yn teithio am amryw o resymau yn y dref a thu hwnt; a hynny o ran hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a theulu, i fynd i addysg neu waith, i symud nwyddau neu i ddarparu gwasanaethau, neu i gael mynediad at wasanaethau eu hunain. Mae yna hefyd deithwyr i'r dref sy'n cynnwys twristiaid neu'r rhai sy'n mwynhau'r man gwyrdd.

Mae Blaenafon yn gymharol ynysig yn ddaearyddol. Y prif lwybr trafndiaeth ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a phobl rhwng Blaenafon a Phont-y-pŵl yw'r A4043, sy'n rhoi mynediad i Gwibrân a thu hwnt i'r M4. Mae'r ffordd yn cludo tua **15,148** o gerbydau'r dydd (i'r gogledd a'r de)<sup>18</sup> ac er bod y cerbydau'n symud yn dda, gall fod tagfeydd lleol.

Y B4248 Blaenafon i Frynmawr yw'r prif gyswllt ar gyfer nwyddau, pobl a gwasanaethau sy'n cyrchu A465 Coridor Blaenau'r Cymoedd ac ymlaen i orllewin a chanolbarth Cymru neu'r dwyrain tuag at

Ganolbarth Lloegr. Mae tua **6,228** o gerbydau yn cael eu cludo bob dydd o'r wythnos (i'r gogledd a'r de)<sup>19</sup>. Mae ansawdd y ffordd hon yn wael.

Y B4246 yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol i'r Fenni, ac ar hyn o bryd mae'n cludo tua **3,000** o gerbydau bob dydd<sup>20</sup>. Gwaherddir Cerbydau Nwyddau Trwm rhag defnyddio'r llwybr hwn oherwydd ei raddiant serth.

Nododd astudiaeth ddiweddar a oedd yn edrych ar ddarpariaeth ddiwydiannol yn ardal Blaenau'r Cymoedd bod y modd o gysylltu rhwng Blaenafon a'r A465 yn wael ac yn risg posibl i gyflogaeth, gan y gallai ystadau diwydiannol ar ffordd Blaenau'r Cymoedd fod yn fwy deniadol i ddiwydiannau na'r rheini ymhellach o'r A465<sup>21</sup>.

Mae gwasanaeth bws rheolaidd rhwng Blaenafon a Phont-y-pŵl, sy'n gweithredu fel canolbwynt trafniadaeth gyhoeddus ar gyfer y gogledd. Nid oes bws uniongyrchol i'r Fenni - mae'r llwybr yn mynd trwy Bont-y-pŵl.

Mae'r gorsafoedd rheilffordd agosaf yn y Fenni a'r dafarn Newydd ym Mhont-y-pŵl.

Gall trafniadaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd ar incwm isel neu incwm cyfyngedig, gall prisiau cyfredol olygu bod trafniadaeth gyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno.

Bydd lleihau **costau trafniadaeth** yn gallu cynyddu incwm gwario a dod â phobl sy'n gweithio allan o dlodi.

Yn 2020, gosodwyd y pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus cyntaf ym Mlaenafon, ym maes parcio James Street. Mae llawer o'r tai ym Mlaenafon yn dai teras ac nid ydynt yn medru parcio oddi ar

y ffordd. Gallai hyn gyfyngu ar y nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan yn y dyfodol oherwydd gallai codi tâl fod yn broblem. **Bydd angen mynediad at fwy o gyfleusterau gwefru trydan ar Flaenafon y dyfodol.**

Mae'r orsaf danwydd Hydrogen agosaf yn y Fenni. **Efallai y bydd mwy o gerbydau yn y dyfodol hefyd yn cael eu pweru gan hydrogen.**

Gall cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus wneud cyfraniad pwysig i anghenion trafniadaeth lleol, wrth hefyd helpu i fynd i'r afael â materion fel **tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd** sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar gar.

Gall llwybrau teithio llesol, diogel, yn enwedig y rheini sy'n cynnig y potensial i gymudo, helpu i gefnogi **ffyrdd iach o fyw**, ond, mae rhai manau yn y dref a'r ardaloedd amgylchynol yn serth iawn a gallai hyn fod yn broblem i rai.

**Yn y dyfodol gallai fwy o bobl ddewis i deithio'n llesol fel y gallant gadw'n iachach wrth heneiddio.**

**Efallai y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio beiciau trydan i lywio graddiant serth y dref a thu hwnt, er mwyn cysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus.**

Mae Covid-19 wedi golygu bod llawer ohonom yn cerdded a beicio mwy ac yn gwerthfawrogi gwerth ein manau gwyrdd lleol. Mae Blaenafon ar y llwybr beicio cenedlaethol sydd â thoreth o hawliau



tramwy cyhoeddus a thir mynediad agored, a dyna un o'r rhesymau ei fod mor boblogaidd ymhlith ymwelwyr.



Ffigur 6: Tai teras ar lethr serth, Blaenafon.

Mae Covid-19 wedi golygu bod mwy ohonom yn gweithio gartref ac yn defnyddio gwasanaethau ar-lein, ond mae mathau o waith nad oes modd eu gwneud o bell nac yn ddigidol.



Mae bron i un ymhob pump o drigolion sy'n gweithio (460) yn gweithio yn y maes gweithgynhyrchu.<sup>22</sup>

**Efallai na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn teithio cymaint i'r gwaith.**

**Mynediad i Fand Llydan**



Mae bron pob cartref ym Mlaenafon yn gallu cyrchu band llydan gydag isafswm cyflymder o 30Mb/s, 2.8% o aelwydydd yn unig sy'n methu â gwneud hynny<sup>23</sup>.

Nid yw gallu cyrchu band llydan yr un peth â'i gael. Gall fforddiadwyedd a/neu lythrennedd digidol fod yn rhwystr i rannau o'r gymuned.

**Efallai y bydd cymunedau'r dyfodol yn llai dibynnol ar systemau telathrebu sefydlog ac efallai y bydd mwy o bobl yn defnyddio 5G ayyb.**



Cyn y pandemig, roedd ychydig dros **20%** o'r bobl sy'n byw ym Mlaenafon hefyd yn gweithio yn y dref, ond mae'r mwyafrif yn teithio i weithio<sup>24</sup>.

Nid ydym yn gwybod a fydd gweithio gartref yn drefniant parhaol neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w gweithleoedd neu'n dewis defnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb. Mae'n debygol y bydd gennym gyfuniad o ryngweithio ar-lein, anghysbell a phersonol.

**Mae angen i Flaenafon y dyfodol fod yn seibr-ddiogel a chael ei gynnwys yn ddigidol.**

### 3.3 Mynediad i wasanaethau a throsedd



Er bod yna lawer o ymwelwyr, mae'r dref yn gwasanaethu'r boblogaeth leol yn bennaf. Mae nifer graidd o wasanaethau a chyfleusterau ar gael, i eraill, mae angen i drigolion deithio i'r Fenni, Brynmawr, Pont-y-pŵl neu rywle arall.





Cyn Covid, roedd nifer y **lleoedd gwag** yng Nghanol y Dref yn **24.1%** <sup>25</sup>.

Roedd y monitro yn 2021 yn dangos bod nifer y lleoedd gwag wedi cynyddu i **28%** <sup>26</sup>. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o fod ynghlwm â chyfyngiadau'r pandemig a mwy yn prynu ar lein.

Nid oes banciau na chymdeithasau adeiladu ym Mlaenafon, ond mae Swyddfa'r Post yn darparu rhai gwasanaethau bancio. Yr ysbytai agosaf yw'r Ganolfan Gofal Critigol newydd yng Nghwmbrân a Nevill Hall yn y Fenni. Mae gan y dref ysgol gynradd ac mae'r ysgol uwchradd agosaf yn y fwrdeistref yn Abersychan.

| Math o Ased                                    | Thema            |
|--|------------------|
| 1 x Llyfrgell                                  | Gwasanaeth Lleol |
| 1 x Swyddfa Bost                               | Gwasanaeth Lleol |
| 1 x Ysgol Gynradd                              | Gwasanaeth Lleol |
| 2 x Bwynt gwefru cerbydau trydan               | Seilwaith        |
| 1 x Llwybr Beicio Cenedlaethol                 | Seilwaith        |
| 1 x Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig      | Man Gwyrdd       |
| 2 x Warchodfa Natur Leol                       | Man Gwyrdd       |
| 5 x Ardal Chwarae i Blant                      | Hamdden          |
| 1 x Canolfan Byw Egnïol                        | Hamdden          |
| 1 x Dirwedd Ddiwydiannol Safle Treftadaeth Byd | Diwylliannol     |
| 1 x Canolfan Treftadaeth y Byd                 | Diwylliannol     |
| 1 x Ardal Gadwraeth Canol Tref                 | Diwylliannol     |

Mae Canolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol Blaenafon yn ganolbwynt gwasanaeth cyhoeddus allweddol i'r dref. Ochr yn ochr â'r practis meddygol, gellir cyrchu Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chymorth Tai, Cyngor ar Bopeth, yr Adran Gwaith a Phensiynau'r cyngor, a gwasanaethau galw heibio trydydd sector i gyd yn yr Hwb. Mae

llywio gofal a rhagnodi cymdeithasol yn ddulliau a fabwysiadwyd gan staff yn y ganolfan i gefnogi lles cleifion mewn ffordd fwy cyfannol.

### **Bydd y galw lleol yn effeithio ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir yn y dyfodol, wrth i asiantaethau a busnesau asesu a fydd y ddarpariaeth yn gost effeithiol.**

Oni bai bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i ddefnyddio gwasanaethau na chymryd rhan ym mywyd y gymuned.



Mae difrod troseddol ym Mlaenafon **78%** yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru gyda 2.03 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth o gymharu â 1.14. Mae trosedd treisgar **37%** yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (3.65 o gymharu â 2.67 fesul 100 o'r boblogaeth). <sup>27</sup>.

### **Bydd delio â throedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi gwell cydlyniant yng nghymunedau Torfaen.**

### 3.4 Tai, aelwydydd ac iechyd

**Ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol Blaenafon yw sicrhau bod y math cywir o dai i gefnogi anghenion y gymuned.**

**Pe bai tai'r dyfodol yn gwella o ran effeithlonrwydd ynni, byddai cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg a byddent yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon.**

|                            |  |
|----------------------------|--|
| <b>Y Stoc Dai</b>          | Mae mwyafrif y tai yn stoc hŷn o'r 19eg a'r 20fed Ganrif, nid ydynt yn defnyddio ynni'n effeithlon ac mae yna ddiffyg ystod ac amrywiaeth.   |
| <b>Band Treth y Cyngor</b> | Mae mwyafrif y tai ym Mlaenafon ( <b>83.7%</b> ) ym <b>mand A neu B treth y cyngor</b> , sef y band tai gwerth isaf. Mae bron i'r holl ( <b>95.7%</b> ) dai ym <b>Mlaenafon 2</b> ym mand <b>A a B</b> . <sup>28</sup>   |
| <b>Daliadaeth</b>          | Mae trigolion yn nhraean o'r tai ym Mlaenafon yn berchen arnynt yn llwyr ( <b>34.4%</b> ) ac mae tua 30% yn berchen arnynt drwy forgais neu fenthyciad. Mae chwarter yn cael eu rhenti gan yr Awdurdod Lleol neu LCC* ( <b>26.4%</b> ), sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (16.1%) - mae hyn yn uwch ym Mlaenafon 2 sef <b>44.2%</b> <sup>29</sup><br>* <i>Yn Nhorfaen nid oes unrhyw dai yn eiddo i'r awdurdod lleol, felly mae'r data hwn yn ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn unig.</i> |

**Bydd angen i gartrefi'r dyfodol wrthsefyll hinsawdd sy'n newid.**

Mae asesiad risg hinsawdd y DU yn nodi risgiau i iechyd a lles o ran tymheredd uchel. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r risg i gartrefi Cymru yn hysbys<sup>30</sup>.

**Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu nawr yn waddol i genedlaethau'r dyfodol.**

Mae diffinio'r angen am dai yn gymhleth a bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar lefelau'r galw yn gyffredinol.

Byddai data MALIC, sy'n seiliedig ar ddau ffactor yn unig: gorlenwi a gwres canolog, yn awgrymu bod lefelau amddifadedd tai yn isel ym Mlaenafon, a bod yr angen am dai yn ddigonol. Fodd bynnag, mae yna sawl mater, a amlinellir isod, nad ydyn nhw'n cael eu hystyried.

Mae cyflenwad rhesymol o eiddo cymdeithasol 2 wely yn y dref, ond mae'r rhain yn parhau i fod yn anfforddiadwy i ymgeiswyr sengl sy'n derbyn budd-daliadau, na allant gael mynediad atynt oherwydd diwygiadau o ran budd-daliadau lles<sup>31</sup>.



Cost eiddo ar gyfartaledd ym Mlaenafon yn ystod 2020 oedd **£129,178**<sup>32</sup>.

Yr incymau blynyddol ar gyfartaledd yn Nhorfaen yw tua **£32,600**<sup>33</sup> a'r gymhareb pris tai: incwm yw tua **4:1**. Mae hyn yn golygu y byddai rhaid i ymgeisydd sengl wario 4 gwaith ei gyflog i allu prynu eiddo, sy'n golygu bod hyn yn atal y mae'r mwyafrif o bobl sengl i brynu heb gymorth.

Mae galw mawr am dai cymdeithasol a chanolraddol ym Mlaenafon, gan gynnwys angen arbennig o uchel am dai cymdeithasol 1 ystafell

---

## Asesiad Lles Blaenafon

---

wely; gyda 130 o ymgeiswyr ar gyfartaledd yn gwneud cais am bob eiddo a hysbysebir <sup>34</sup>.

Mae llawer o'r stoc dai presennol yn hen, ac nid yw'n diwallu anghenion neu ofynion cyfredol perchnogion; heb unrhyw barcio sy'n golygu bod mynediad yn anodd a diffyg effeithlonrwydd ynni sy'n eu gwneud yn ddud i'w cynnal.


Gall ansawdd tai hefyd effeithio ar iechyd, gyda thai o ansawdd gwael yn aml yn gwaethygu cyflyrau cronig,

Felly, er efallai nad yw eiddo ym Mlaenafon yn orlawn neu heb wres canolog, nid ydynt o reidrwydd yn ddigonol ar gyfer anghenion lleol, gyda rhai trigolion yn methu â chyrchu, fforddio na chynnal llety yn y dref.

## Asesiad Lles Blaenafon

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r modd swyddogol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fesur tlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny, o ran daearyddiaeth LSOA, sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae MALIC yn rhestru pob LSOA yng Nghymru o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| <b>Amddifadedd Cyffredinol</b> | Mae Blaenafon 2 yn yr <b>20%</b> uchaf o'r LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru.      |
| <b>Amddifadedd o ran incwm</b> | Mae 21% o bobl sy'n byw ym Mlaenafon yn wynebu amddifadedd o ran incwm.               |
| <b>Addysg</b>                  | Mae Blaenafon 2 yn y <b>10%</b> uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  |
| <b>Diogelwch cymunedol</b>     | Mae Blaenafon 3 yn y <b>10%</b> uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru . |



Ffigur 8: Safleoedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar gyfer Blaenafon 1-4.

Mae Ffigurau 8 a 9 yn rhoi trosolwg o raddfa'r amddifadedd cymharol ledled Blaenafon yn seiliedig ar ddata o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) <sup>35</sup>.

| MALIC 1-1909                         |
|--------------------------------------|
| 1-191: 10% Mwyaf Difreintiedig       |
| 192-382: 10%-20% Mwyaf Difreintiedig |
| 383-573: 20%-30% Mwyaf Difreintiedig |
| 574-955: 30%-50% Mwyaf Difreintiedig |

Ffigur 7: Safleoedd MALIC, Blaenafon 1-4.

|            |             | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Blaenafon |       |            |        |        |                        |                     |                     |      |
|------------|-------------|--|-------|------------|--------|--------|------------------------|---------------------|---------------------|------|
| MSOA-Name  | LSOA-Name   | Amddifadedd  |       | Cyflogaeth | Iechyd | Addysg | Mynediad I Wasanaethau | Diogelwch Cymunedol | Amgylchedd Ffisegol | Tai  |
|            |             | Cyffredinol  | Incwm |            |        |        |                        |                     |                     |      |
| Torfaen001 | Blaenafon 1 | 626  | 560   | 539        | 801    | 476    | 1315                   | 300                 | 404                 | 1381 |
| Torfaen001 | Blaenafon 2 | 252  | 261   | 230        | 379    | 147    | 935                    | 580                 | 691                 | 446  |
| Torfaen001 | Blaenafon 3 | 462  | 605   | 483        | 627    | 333    | 1120                   | 140                 | 435                 | 336  |
| Torfaen001 | Blaenafon 4 | 898  | 764   | 1012       | 1132   | 762    | 1866                   | 230                 | 490                 | 350  |

Yn gyffredinol, mae gweithio yn cael ei ystyried fel y llwybr gorau allan o dlodi, ond lle mae cyflog yn isel, oriau gwaith yn gyfyngedig neu'r ddau, yna nid yw hyn yn wir bob amser. Mae'r data'n awgrymu bod rhai pobl sy'n byw ym Mlaenafon yn wynebu tlodi yn y gwaith.

**Mae un rhan o bump o bobl o oedran gwaith ym Mlaenafon 2 yn derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth** <sup>36</sup>.

|                          |   |
|--------------------------|---|
| <b>Parseli Banc Bwyd</b> | Rhodddwyd 9752 o barseli bwyd i drigolion Torfaen gan Fanc Bwyd y Cwm Dwyreiniol rhwng Ionawr 2018 a Mehefin 2021. Mae hyn yn cyfateb i 232 o barseli'r mis ar gyfartaledd. Derbyniodd trigolion Blaenafon 928 o barseli dros yr un cyfnod, sef 22 parcel y mis ar gyfartaledd. |
|--------------------------|---|

Mae banciau bwyd yn arwydd pwysig o'r anghydraddoldeb economaidd sy'n bodoli yn ein cymunedau. Nid Banc Bwyd y Cwm Dwyreiniol yw'r unig fanc bwyd y gall trigolion Blaenafon ei gyrchu.

Yn ystod Covid-19, dechreuodd Capel Bethlehem redeg 'Fare Share' yn wythnosol. Yma gall y rhai yn y gymuned sydd angen cymorth, gael bwyd sydd wedi'i aiddosbarthu o archfarchnadoedd, a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu. Rhoddir cyflenwadau dros ben i bantri cymunedol.

Gall rhandiroedd ddarparu ffynhonnell fforddiadwy o fwyd o ansawdd da, sy'n hanfodol ar gyfer diet iach. Gall y gweithgaredd corfforol sy'n gysylltiedig â chadw rhandir hefyd gynnig buddion iechyd ehangach. Nid oes gan bawb ardd neu le addas i dyfu

ffrwythau a llysiau ac nid oes rhandiroedd gwag ar gael ar hyn o bryd ar y ddau randir sy'n eiddo i'r Cyngor ym Mlaenafon.

**Mae angen i gymunedau'r dyfodol gael hyd i ardaloedd addas i dyfu bwyd yn lleol.**

**Bydd angen bwyd lleol, cynaliadwy ar genedlaethau'r dyfodol sy'n eu cadw'n iach, yn darparu swyddi da a hynny heb niweidio ein hamgylchedd.**

Mae cydweithfeydd bwyd yn ffordd dda o sicrhau bod bwyd o ansawdd da, fforddiadwy ar gael.

**Gall cyrchu bwyd yn lleol, lleihau milltiroedd bwyd a bwyta'n dymhorol oll helpu i leihau allyriadau carbon.**



Mae **32.3%** o blant sy'n byw ym Mlaenafon sy'n mynychu ysgolion yn Nhorfaen yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim<sup>37</sup>

Mae prydau ysgol am ddim yn dynodi'r anghydraddoldeb economaidd sy'n bodoli yn ein cymunedau. Gall darparu prydau ysgol iach helpu i wella iechyd yn gyffredinol, cefnogi gallu plentyn i ddysgu, a gall ddylanwadu ar ddewisiadau bwyd i ffwrdd o'r ysgol.

**Bydd cymryd camau i leihau anghydraddoldebau yn lleihau effaith iechyd gwael ar gymunedau penodol.**

Mae yna heriau penodol ym Mlaenafon sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, trafniadaeth, tai, cyrhaeddiad addysgol a lefelau o amddifadedd a allai fod yn cael effaith ar iechyd.

Er bod iechyd a hunan-gofnodir yn dda, mae cyfradd marwolaethau cyn pryd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd yng Nghymru ac mae gan 24.9% o'r bobl sy'n byw ym Mlaenafon salwch hirdymor sy'n cyfyngu.

|  |   |
|--|---|
| <b>Salwch hirdymor sy'n cyfyngu</b>    | Ar y cyfan, mae gan <b>1 o bob 4</b> o drigolion ym Mlaenafon dalwch hirdymor sy'n cyfyngu - cyfradd o 24.9 fesul 100 o'r boblogaeth. Mae hyn fymryn yn uwch na'r cyfartaledd yn Nhorfaen (24.2), ond yn uwch fyth na Chymru (22.7). Ym Mlaenafon, mae'r ardaloedd LSOA sy'n llai yn ddaearyddol yn amrywio o 21.3 ym Mlaenafon 4 a 28.3 ym Mlaenafon 2 <sup>38</sup> . |
| <b>Cyfradd marwolaethau: pob achos</b> | Mae cyfradd marwolaethau o 'bob achos' ym Mlaenafon yn <b>1092.7</b> fesul <b>100,000</b> o'r boblogaeth, sy'n uwch na chyfraddau Torfaen (1078.7) a Chymru (1048.3) <sup>39</sup> .  |
| <b>Marwolaethau cyn pryd</b>           | Mae cyfraddau marwolaethau cyn pryd (dan 75) ym Mlaenafon yn <b>458.0</b> fesul <b>100,000</b> . Y gyfradd ar gyfartaledd yng Nghymru yw 382.4 fesul 100,000. Ym Mlaenafon 2 mae'r gyfradd uchaf sef <b>636.7</b> fesul <b>100,000</b> <sup>40</sup> .  |

**Bydd mynd i'r afael â phrif achosion o farwolaeth cyn amser a salwch, yn gohirio eiddilwch a helpu oedolion o oedran gweithio i fyw bywydau iachach am gyfnod hirach**

## **trwy atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a hyrwyddo lles meddyliol yn helpu i greu Blaenafon iachach.**

Dywedodd arolwg cyn Covid ar gyfer trigolion<sup>41</sup> Blaenafon wrthym fod..

|                                      |   |
|--------------------------------------|---|
| <b>Iechyd corfforol</b>              | 67% o rheini a ymatebodd yn ystyried bod eu hiechyd corfforol yn eithaf da/da iawn. Mae tua <b>8%</b> yn ei ystyried yn weddol wael/wael iawn.                              |
| <b>Iechyd meddyliol ac emosiynol</b> | Mae 77% o'r rheini a ymatebodd yn ystyried eu hiechyd meddyliol ac emosiynol yn dda iawn/weddol dda. Mae tua <b>8%</b> o drigolion yn ei ystyried yn weddol wael/wael iawn. |

Sefydlwyd Rhwydwaith Lles Integredig ym Mlaenafon yn 2019 i ddod â gwasanaethau cymunedol ehangach ynghyd â darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r nod o ddarparu mecanwaith cadarn i fynd i'r afael â'r heriau iechyd lleol hyn gyda'r ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar.



## 4 Economi

### 4.1 Addysg, sgiliau a gwaith

#### **Gall profiadau ym mhentyndod bennu datblygiad yn y tymor hir a chyflawniadau cyffredinol ym mywyd.**

Mae data MALIC yn dweud wrthym fod Blaenafon 2 yn y **10%** uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran addysg. Mae ganddo hefyd grynodiad uchel o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'r data'n dweud wrthym y gallai'r ffactorau cymdeithasol-economaidd fod yn cyfrannu at fylchau cyrhaeddiad rhwng cymunedau.

Mae Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs) yn brofiadau sy'n achosi cymaint o straen yn ystod plentyndod a gall hyn beri poen yn uniongyrchol i blentyn, fel camdriniaeth neu esgeuluso, neu fe all effeithio arnynt drwy'r amgylchedd y maen nhw'n byw ynddo, fel cael eu magu mewn cartref lle mae trais domestig neu unigolion sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill <sup>42</sup>

Nid oes gwybodaeth am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar gael ar lefel leol ar gyfer Blaenafon. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd mewn mwy o berygl o wynebu amryw o brofiadau niweidiol <sup>43</sup>.

**Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael y dechrau gorau mewn bywyd trwy brofi ymddygiad teuluol iach, yn enwedig yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf, a thorri'r cylch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.**

**Bydd sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg o ansawdd da a chodi dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc yn y dyfodol yn cefnogi eu lles economaidd yn y tymor hir.**

Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar draws y fwrdeistref i wella cyfleusterau dysgu ac i gefnogi dulliau addysgu modern sydd o fudd i ddisgyblion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Mae Blaenafon wedi elwa o ysgol gynradd newydd gyda chysylltiadau cryf â'r ganolfan adnoddau iechyd, gyfagos i ddarparu gwasanaethau cyfannol i deuluoedd yn yr ardal. Buddsoddwyd hefyd mewn darpariaeth ôl-16 newydd yng Nghwmbwrân.

Dengys y data bod llai o ddisgyblion yn manteisio ar addysg uwch ym Mlaenafon (**22%**) na'r cyfartaledd yng Nghymru (**30%**). Mae'n dangos hefyd nad oes gan **24.3%** o oedolion 25-64 oed unrhyw gymwysterau, ac mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd yng Nghymru (**19.4%**)<sup>44</sup>.

Mae arolwg o 1058 o ddisgyblion blwyddyn 11 (16 oed) a adawodd yr ysgol ar draws Torfaen yn 2018, yn dangos bod 35% yn mynd i'r 6ed dosbarth, 49% yn mynd i'r coleg, 8.6% yn mynd i hyfforddiant yn y gwaith a 4% yn cychwyn ym myd gwaith. Mae arolwg dilynol a gynhaliwyd flwyddyn yn ddiweddarach yn 2019 yn dangos bod y rhai sy'n parhau mewn addysg amser llawn yn yr ysgol wedi gostwng 21% ar gyfer yr un garfan a bod y rhai amser llawn yn y coleg wedi gostwng 91%<sup>45</sup>.



I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd trafndiaeth fod yn rhwystrau rhag mynd i addysg uwch ac aros yno.

**Mae angen cefnogi a grymuso cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bobl ifanc i'w hatal rhag dod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).**

|   |   |
|---|---|
| <b>Absenoldeb o'r ysgol dro ar ôl tro</b>                       | Mae disgyblion sy'n absennol o'r ysgol dro ar ôl tro ym Mlaenafon yn <b>7.1%</b> , sy'n uwch na Thorfaen (6.2%) a Chymru (5.4%). LSOA Blaenafon 2 a Blaenafon 3 sydd â'r lefel uchaf ym Mlaenafon gyda <b>8.0%</b> . Yr isaf yw Blaenafon 4 sydd â 5.7% <sup>46</sup> . |
| <b>Disgyblion nad ydynt yn cychwyn addysg uwch yn 18-19 oed</b> | Nid yw <b>78%</b> o ddisgyblion ym Mlaenafon yn mynd i addysg uwch yn 18 i 19, sy'n uwch na Thorfaen (73%) a Chymru (70%). LSOA Blaenafon 2 yw'r uchaf gyda 85% <sup>47</sup> .   |

**Bydd gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddi, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddod o hyd i waith gweddus ac osgoi tlodi yn y gwaith.**

**Bydd y sectorau gweithgynhyrchu, lletygarwch, adeiladu, iechyd a gofal yn elwa o weithlu yn y dyfodol sydd â sgiliau galwedigaethol.**

| <b>Cyflogaeth</b><br> | Mae tua <b>2,760</b> o drigolion sy'n weithgar yn economaidd ym Mlaenafon ac, o'r rhain: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae <b>2,187</b> yn weithwyr</li> <li>• <b>242</b> yn hunangyflogedig, a</li> <li>• <b>249</b> yn ddi-waith<sup>48</sup>.</li> </ul>                                      |                    |       |   |                 |       |      |         |     |      |          |       |                    |
|--|---|--------------------|-------|---|-----------------|-------|------|---------|-----|------|----------|-------|--------------------|
| <b>Sgiliau</b><br>    | <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Nifer</th> <th>%</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Heb gymwysterau</td> <td>1,580</td> <td>32.5</td> </tr> <tr> <td>Lefel 2</td> <td>786</td> <td>16.2</td> </tr> <tr> <td>Lefel 3+</td> <td>1,365</td> <td>28.1<sup>49</sup></td> </tr> </tbody> </table> |                    | Nifer | % | Heb gymwysterau | 1,580 | 32.5 | Lefel 2 | 786 | 16.2 | Lefel 3+ | 1,365 | 28.1 <sup>49</sup> |
|  | Nifer   | %                  |       |   |                 |       |      |         |     |      |          |       |                    |
| Heb gymwysterau  | 1,580   | 32.5               |       |   |                 |       |      |         |     |      |          |       |                    |
| Lefel 2  | 786   | 16.2               |       |   |                 |       |      |         |     |      |          |       |                    |
| Lefel 3+   | 1,365   | 28.1 <sup>49</sup> |       |   |                 |       |      |         |     |      |          |       |                    |
| <b>Diwydiant cyflogaeth</b>  | Y diwydiant mwyaf o ran cyflogaeth ym Mlaenafon yw gweithgynhyrchu - <b>38.2%</b> o'r holl swyddi. Mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd yng Nghymru (10.9%). Mae tua <b>663</b> o swyddi gweithgynhyrchu ym Mlaenafon, 27.5% <sup>50</sup> .  |                    |       |   |                 |       |      |         |     |      |          |       |                    |
| <b>Prif safleoedd cyflogaeth</b>   | 2 stad ddiwydiannol fawr - Gilchrist Thomas (30 hectar) a Kays and Kears (6 hectar). Mae gan y ddwy, beth potensial o ran datblygu.   |                    |       |   |                 |       |      |         |     |      |          |       |                    |

Bydd darparu cymorth cyflogadwyedd i helpu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi yn eu galluogi i gyflawni eu potensial a bydd yn helpu i gefnogi economi lewyrchus.

**Mae'r trefi mwyaf llwyddiannus yn cynnig ystod o swyddi mewn gwahanol sectorau. Gall gweithio gael effaith gadarnhaol ar iechyd unigolyn.**

Mae Torfaen ynghyd â 9 ardal awdurdod lleol arall yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, gan drosoli £4bn o fuddsoddi sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae 8 sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth wrth symud ymlaen<sup>51</sup>:



*Ffigur 9: Sectorau o flaenoriaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd*

Gyda'i brif sylfaen gyflogaeth yn y maes gweithgynhyrchu, mae Blaenafon mewn sefyllfa dda i gysylltu â'r sector sy'n rhoi blaenoriaeth i beirianeg drafnidiaeth, ond gall fod cyfleoedd eraill hefyd i fusnesau newydd a phresennol.

Mae tirwedd hanesyddol a naturiol Blaenafon yn lleoliad poblogaidd ar gyfer y byd ffilm a'r sgrin fach fel ei gilydd, felly'n ei rhoi mewn sefyllfa dda i gyfrannu cynnig economi greadigol y rhanbarth.

Yn 2021 gwelwyd effaith materion cadwyni cyflenwi ynni a chynnydd o ran costau nwy cyfanwerthol.

**Yn ogystal â bod yn effeithlon o ran ynni, mae angen cyflenwadau ynni diogel ar fusnesau nawr ac yn y dyfodol yn Nhorfaen.**


Rydym hefyd yn gwybod bod gan Dorfaen boblogaeth sy'n heneiddio, a gallai hyn olygu galw cynyddol am rai gwasanaethau gofal ac iechyd yn y dyfodol. Gall datblygiadau technolegol olygu bod angen sgiliau newydd i weithio yn y sector hwn.

**Mae gan yr economi sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, fel ynni a bwyd a gofal iechyd, ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at wytnwch yr economi leol yn y tymor hir.**

**Bydd rhagweld gofynion addysg a sgiliau tymor hir yn darparu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol yn sectorau cyflogaeth yfory.**

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth am nifer y bobl ym Mlaenafon a fuodd ar ffyrlo, y cafodd eu horiau gwaith eu lleihau neu a gollodd eu horiau gwaith neu a fu'n destun newid mewn cyflogaeth o ganlyniad Covid-19. Nid ydym hefyd yn gwybod beth fydd effaith tymor hwy'r pandemig ar gyflogaeth.

## 5 Yr Amgylchedd



Mae ein haer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phriddoedd yn darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden, maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed sy'n peillio, a storio carbon.

Mae'r rhan hon o'r asesiadau yn dweud wrthym am gyflwr a gwytnwch adnoddau naturiol Blaenafon ac yn nodi'r heriau rheoli yn y tymor hir.

|   |   |
|---|---|
| <b>Nodweddion nodedig</b>                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ochrau dyffrynnoedd coetir hynafol.</li> <li>- Cors Waun Afon.</li> <li>- Ardaloedd helaeth o dir comin, cynefinoedd ôl-ddiwydiannol, rhostir yr tir uchel, gwlypdiroedd a glaswelltir.</li> </ul> |
| <b>Rhywogaethau nodedig</b>                 | Coch y Grug, Cornicyll, Telor y Coed, Cnwp-fwsogl Alpaidd, Mursen Las Brin, Glöyn llwyd.  |
| <b>Dynodiadau cadwraeth natur allweddol</b> | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Y Blorens<br>Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd Garn.  |

Mae ei amgylchedd diwydiannol yn dylanwadu'n gryf ar amgylchedd naturiol Blaenafon. Mae'r dirwedd leol unigryw o domenni a phyllau glo bellach yn **adnodd ecolegol** sylweddol sy'n cynnal ystod o rywogaethau nodedig.

Ar ben y brynau, mae rhedyn, glaswelltir corsiog, gweundiroedd a rhostiroedd yn cynnal rhywogaethau eiconig fel y rugiar goch a'r gornchwigen.

Yn hanesyddol, rheolwyd llawer o'r ardaloedd tir uchel o amgylch Blaenafon ar gyfer grugieir coch. Heddiw rheolir rhostir y grug nid yn unig ar gyfer grugieir ond ar gyfer hamdden, rheoli tân ac ar gyfer amaethyddiaeth trwy bori da byw.

Mae cynefinoedd y tir uchel yn arbennig o sensitif i hinsawdd sy'n newid. Efallai y bydd angen i rai rhywogaethau fudo i ffwrdd i uchderau uwch, oerach i oroesi, gan arwain at newidiadau ym mioamrywiaeth a thirwedd y tiroedd uchel<sup>52</sup>.

**Ymhlith y cynefinoedd sydd mewn perygl o hinsawdd sy'n newid mae tir mawnog, rhostir y tir uchel a choedwigoedd ffawydd<sup>53</sup>.**

Gan weithio mewn partneriaeth, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyngor Torfaen yn cynnal llosgiadau strategol yn ardal Blaenafon ac yn torri bylchau i atal tân er mwyn helpu i osgoi tanau gwylt ar raddfa fawr.

**Gallai hinsawdd sy'n newid, gynyddu amllder tanau glaswelltir.**

## Lle mae'r amgylchedd eisoes dan straen, er enghraifft trwy golli a chwalu cynefinoedd, yna mae'r risgiau newid yn yr hinsawdd yn fwy.<sup>54</sup>

Mae gan ein hadnoddau naturiol ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi ein gallu i liniaru newid yn yr hinsawdd trwy storio carbon. Gallant hefyd helpu i gefnogi ein hymateb i addasu trwy, er enghraifft, reoli dŵr yn y dirwedd a lleihau effaith tymheredd sy'n codi.

**Cors Waun Afon** i gyfeiriad y gogledd o'r dref yw ffynhonnell Afon Lwyd. Mae'r afon yn troelli drwy Dorfaen, yn ei hyd, i'w chydliad ag Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Wysg.

Mae'r ardal hon o bridd mawn a'i llystyfiant sy'n gysylltiedig â ffurfio corysdd wedi cymryd miloedd o flynyddoedd i'w sefydlu. Mae'r llystyfiant mwsoglyd ar wyneb y gors yn atal ocsigen rhag cyrraedd y llystyfiant gwlyb, pydredig o dan yr wyneb, **gan gloi'r carbon i mewn.**

Mae rhywfaint o arwydd bod angen rheoli'r corysdd mawn ym Mlaenafon i'w hatal rhag diraddio. Pan fydd corysdd yn dirywio, mae'r carbon maen nhw'n ei storio yn cael ei ryddhau yn ôl i'r atmosffer. Effeithir hefyd ar eu gallu i ddal dŵr gan olygu y gall dŵr o'r tiroedd uchel gyrraedd yr afon yn gyflymach gan ychwanegu at lefelau dŵr ymhellach i lawr y cwm.



Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU yn nodi bod angen mwy o weithredu yng Nghymru i adfer storfeydd carbon diraddiedig, yn enwedig mawndiroedd<sup>55</sup>.

## Os yw cenedlaethau yn awr ac yn y dyfodol am elwa o fuddion storio carbon a rheoli dŵr pwysig cors Waun Afon, yna mae angen ei rheoli'n briodol.

**Ansawdd Dŵr** O dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, mae Afon Lwyd uchaf a llednentydd yn ardal Blaenafon yn cael eu hystyried yn **statws ecolegol gwael.**

Mae'r rhesymau dros statws ecolegol gwael yr afon rhwng Blaenafon a Phont-y-pŵl yn cynnwys **rhwystrau** ar yr afon sy'n effeithio taith y pysgod; **y garthffosiaeth** a amheuir sy'n cael ei **rhyddhau** felly'n effeithio ar bysgod, a lefelau ffoffad a'r tebygolrwydd o'r **llygredd** a ddaw o hen bwl glo segur<sup>56</sup>.

**Ansawdd aer** Mae'r monitro a wnaed yn Nhorfaen yn 2020 yn datgelu bod ansawdd yr aer yno yn bodloni'r holl safonau cenedlaethol, gyda chrynodiadau o'r holl lygryddion a fesurir, o fewn yr amcanion ansawdd aer penodedig<sup>57</sup>.

Mae gan Flaenafon dir comin helaeth sy'n dod â rhai hawliau pori cymunedol, mae'r tir hefyd yn cynnig mynediad agored i'r cyhoedd. Mae nifer y porwyr gweithredol a pherchnogion da byw sy'n pori, wedi bod yn gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Er y gall gorburi beri problemau i fioamrywiaeth, gall diffyg pori beri i'r

cynefin hwn, sy'n rhostir yn bennaf, arwain at brysgwydd i ordyfu, gan arwain yn y pen draw at goetir a cholli'r dirwedd agored nodweddiadol. Disgwylir i nifer y porwyr gweithredol barhau i ostwng.

**Efallai y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn colli dulliau a sgiliau rheoli tir traddodiadol a allai yn eu tro effeithio ar y dirwedd naturiol unigryw.**

Mae Grŵp Rheoli Tir Comin Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon yn gwneud cyfraniad pwysig at reoli'r ardal, gan gynnal gweithgareddau rheoli ymarferol ar y comin. Ariennir y grŵp trwy'r cynllun micro-hydro.

Yn grŵp o wirfoddolwyr llwyr, mae Grŵp Amgylcheddol Treftadaeth y Byd Blaenafon hefyd yn cynnal gweithgareddau rheoli ar y dirwedd.

**Gellid gwella bioamrywiaeth yn y dyfodol yn sylweddol pe gallai'r adfywio naturiol sy'n digwydd fod yn broses a reolir.**

Gan adael Blaenafon i'r de, yr hyn sydd i'w weld yn nhirwedd y cwm yw coetir hynafol, planhigfeydd conwydd masnachol a gafodd eu torri i lawr yn ddiweddar, a chaeau caeedig.

**Mae coetir ochr y cymoedd yn gweithio'n effeithiol i gymedroli dŵr ffo. Rhagwelir y bydd Torfaen y Dyfodol yn wynebu tywydd mwy eithafol - gan gynnwys glawiad dwys.**

Tua gogledd-orllewin y dref, mae Llynnoedd Garn yn cael eu rheoli fel Gwarchodfa Natur leol ac mae'n cynnal amrywiaeth o gynefinoedd yn cynnwys glaswelltir, pyllau a gwelyau cyrs sy'n gyfoeth o rywogaethau.



Ffigur 10: Llynnoedd y Garn, Blaenafon.



Ar hyn o bryd, nid oes lleiniau ar gael yn y rhandiroedd sy'n eiddo i'r cyngor ym Mlaenafon.

Amcangyfrifwyd bod gorchudd canopi coed cymedrig Blaenafon yn **19.8%** yn 2013<sup>58</sup>.

**Potensial am ynni adnewyddadwy**

Dengys astudiaethau'r potensial i greu mwy o ynni drwy ddefnyddio pŵer dŵr<sup>59</sup>.



Gellir gweld cynllun micro-hydro cyntaf Torfaen ym Mlaenafon – sef Dannedd y Ddraig, sy'n dangos peth o'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn yr ardal. O ystyried statws Safle Treftadaeth y Byd, bydd cyfleoedd pellach i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn destun ystyriaeth ofalus a hynny o ran yr effaith ar ddynodiadau tirwedd ac adeiladau, ond gallant gynnwys cynlluniau dŵr ychwanegol ac offer ffotofoltäig ar ben toeon.

### **Gall prosiectau ynni cymunedol gynhyrchu incwm y gellir ei ail-fuddsoddi yn y manau mae'r bobl yn byw.**

|                             |   |
|-----------------------------|---|
| <b>Trosedd ar y dirwedd</b> | Mae beicio oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn fater sy'n achosi difrod i'r dirwedd. Gall corddi tir hefyd sianelu dŵr ffo ac achosi problemau rheoli dŵr yn lleol. |
|-----------------------------|---|

### **Bydd cyflwyno mesurau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ar y dirwedd yn sicrhau bod Blaenafon yn lle diogel i'w fwynhau gan y bobl.**

Fel rhan o waith ar y cyd i wella lles yn Nhorfaen, datblygwyd Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a rennir sy'n amlinellu blaenoriaethau a chyfleoedd i gryfhau gwytnwch a chysylltedd rhwydwaith seilwaith gwyrdd Torfaen. Mae'n nodi sut y gellir defnyddio'r adnodd hwn i sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd<sup>60</sup>. Ymhlith y blaenoriaethau allweddol ar gyfer Blaenafon mae:

- Rheoli'r tir comin i'w gadw'n iach.

- Cynnal a gwella cyflwr y Safle Treftadaeth
- Gwella mynediad, ac annog deall a mwynhau'r amgylchedd mewn ffordd well.
- Mynd i'r afael â rhwystrau fel trosedd ar y dirwedd sy'n effeithio ar allu'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r amgylchedd.
- Darparu mwy o fannau gwyrdd agored cyhoeddus mewn manau priodol.
- Gwella coridorau gwyrdd newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes rhwng cynefinoedd allweddol. Mae'r rhain yn cysylltu cynefinoedd hollt a gellir eu defnyddio fel llwybrau teithio llesol.

**Yn ogystal â gweithredu'n lleol, bydd dull rhanbarthol o reoli manau gwyrdd a chydweithio â phartneriaid, gan rannu'r dysgu a'r adnoddau yn ein helpu i greu rhwydweithiau o fannau gwyrdd gwydn y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu arnynt.**



Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi ynni a'r amgylchedd fel sector economaidd â blaenoriaeth gyda'r potensial i greu ffyniant yn y rhanbarth dros y 10 - 20 mlynedd nesaf <sup>61</sup>.

**Mae potensial i amgylchedd naturiol Blaenafon greu mwy o swyddi lleol a chyfrannu at les economaidd Torfaen.**

## 6 Diwylliant

|   |   |
|---|---|
| <b>Atyniadau allweddol</b>              | Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Cymru, Gwaith Haearn Blaenafon, Rheilffordd Treftadaeth Blaenafon, Canolfan Treftadaeth y Byd ac Amgueddfa Gymunedol Blaenafon. |
| <b>Dynodiadau treftadaeth allweddol</b> | Safle Treftadaeth y Byd UNESCO– Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a rhestrwyd yn 2000.   |

Mae Blaenafon yn gyfoeth o hanes diwylliannol ac ysbryd cymunedol sy'n parhau heddiw. Mae'r dref yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd ac ystyrir mai hon yw'r enghraifft orau o dref haearn sy'n bodoli yng Nghymru. Mae ei strydoedd o dai gweithwyr, capeli, eglwysi, ysgolion a Neuadd y Gweithwyr, sydd yma'n bodoli, yn adlewyrchu'r diwylliant unigryw a ddatblygodd mewn cymunedau a gynhyrchai haearn a glo ar ddiwedd y 18fed a dechrau'r 19eg ganrif.

**Mae cynnwys y gymuned leol yn arwyddocâd eu treftadaeth a gydnabyddir yn fyd-eang yn bwysig er mwyn sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a lles cymunedol.**

**Gall Blaenafon a Thorfaen ddisgwyl wynebu hinsawdd sy'n newid gyda thywydd mwy eithafol yn y dyfodol. Gallai hyn effeithio ar y treflun hanesyddol.**



*Ffigur 11:Gwaith Haearn Blaenafon.*

Mae Blaenafon yn gartref i ystod o glybiau a chymdeithasau, o Gynghrair Cribej ac Urdd Merched y Dref, i Grwpiau Brownis a Sgowtiaid, Band Tref Blaenafon, Côr Meibion Blaenafon, grwpiau ffotograffiaeth a Fforwm 50+ gweithredol.

**Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fod yn ffordd dda o ddod â phob rhan o'r gymuned ynghyd a chreu cydlyniant cymunedol.**

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol wrth rannu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Blaenafon - o Reilffordd Treftadaeth Blaenafon i Neuadd y Gweithwyr, sydd, yn ogystal â bod yn lleoliad i'w llogi, yn gartref i Sinema Ddigidol Blaenafon ac Amgueddfa Treftadaeth Gymunedol Blaenafon. Roedd treftadaeth gyfoethog Blaenafon yn ysbrydoliaeth i'r nofelydd enwog Alexander

Cordell, ac mae eitemau o'i ystafell ysgrifennu yn cael eu harddangos er budd cenedlaethau'r dyfodol yn y gymuned, y dref, twristiaid ac ymwelwyr eraill.

Mae'r nifer o eglwysi a chapeli hefyd yn gartref i ymdrechion gwirfoddol, drwy ddarparu clybiau cinio a gweithredu fel mannau dosbarthu bwyd i'r rheini sudd mewn angen.

**Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd, magu hyder a dysgu sgiliau gwaith newydd ar gyfer y dyfodol yn ogystal â chael hwyl mewn lleoliad anffurfiol.**

**Mae buddion meddyliol a chorfforol ymarfer corff wedi'u dogfennu'n dda.** Trwy holl waith caled aelodau'r gymuned, mae yna lawer o weithgareddau'n mynd rhagddynt ym Mlaenafon, yn cynnwys rygbi, pêl-droed, dawns, pêl-rwyd, rhedeg, bowlio lawnt, campau ymladd a grwpiau cerdded.

**Gall profiadau yn ystod plentyndod hau hedyn gydol oes o ran diddordeb mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.**

Dywedodd arolwg trigolion a gynhaliwyd cyn Covid nad yw pawb sy'n mwynhau chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd.

### Cyn Covid, dywedodd trigolion Blaenafon wrthym...

#### Chwaraeon a hamdden



Dywedodd **82.6%** o'r rheini a ymatebodd bod chwaraeon a hamdden yn bwysig iawn/weddol bwysig iddynt.

Mae **35.5%** o'r rheini a ymatebodd yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn wythnosol <sup>62</sup>.

#### Celfyddydau a diwylliant



Dywedodd **58.6%** o'r rheini a ymatebodd bod y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn bwysig iawn/weddol bwysig iddynt.

Mae **22.3%** o'r rheini a ymatebodd yn cymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn fisol. Dywedodd **34.9%** nad ydynt byth yn cymryd rhan yn y celfyddydau na gweithgareddau diwylliannol.

Mae rhai pobl sy'n byw ym Mlaenafon yn wynebu sawl math gwahanol o amddifadedd, mae hyn yn golygu bod fforddiadwyedd yn debygol o fod yn rhwystr i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol eraill.

**Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r buddion iechyd a geir wrth fod yn actif, yna mae angen mynd i'r afael â'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan.**

Mae tirwedd arw Blaenafon yn cynnig ystod o lwybrau i'w harchwilio ac mae yna hefyd lwybrau cerdded penodol sy'n tywys pobl drwy'r treflun a'i adeiladau amrywiol o'r 19eg ganrif. Mae'r ardal yn boblogaidd iawn ymysg cerddwyr, beicwyr a beicwyr mynydd.

Yn cwmpasu pellter o 6km, gyda gogwydd o 10% i gopa'r Blorens, mae *Tumble Climb* yn adnabyddus fel llwybr beicio heriol. Mae wedi ymddangos yn Felathon Cymru a Thaith Prydain.



Ffigur 12:Beicwyr ym Mlaenafon.

Sefydlwyd Clwb Rygbi Blaenafon ym 1877 ac mae'r gamp yn parhau i fod yn boblogaidd. Mae aelodau talentog wedi mynd ymlaen i chwarae i Bont-y-pŵl, Barbariaid, Llewod Prydain a thîm cenedlaethol Cymru.

### **Bydd cefnogi pobl i fyw bywydau iach, lle gallant gyflawni eu potensial a dod yn rhan o weithlu iach yn cyfrannu at les economaidd ehangach.**

Mae bwyd yn rhan gynyddol bwysig o ddiwylliant y dref – gyda bragdy a chwmni gwneud caws ymhlith cynhyrchwyr lleol adnabyddus.



Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi'r economi greadigol fel sector economaidd â blaenoriaeth gyda'r potensial i greu ffyniant yn y rhanbarth dros y 10 – 20 mlynedd nesaf.<sup>63</sup>.

**Gall manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o amgylchedd naturiol ysbrydoledig a threftadaeth ddiwylliannol Blaenafon trwy hyrwyddo bywyd gwyllt, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth treftadaeth ddarparu cyfleoedd gwaith yn y dyfodol.**

## 7 Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym

Ochr yn ochr ag edrych ar y data, rydym wedi cynnwys ein cymunedau i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl a gwerthfawrogi sut y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i wella llesiant, gan ganolbwyntio ar gryfderau ein pobl a'n lleoedd. Mae'r adran hon yn dweud wrthym beth mae pobl sy'n byw yn Nhorfaen yn ei feddwl am lesiant yn eu cymuned.

Ar ddiwedd haf 2021 gofynnwyd i drigolion ledled Gwent lenwi holiadur llesiant. Derbyniwyd cyfanswm o 127 o ymatebion gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen. Gofynnwyd 4 cwestiwn i'n cymunedau:


***Beth sy'n arbennig am eich cymuned?***

***Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?***

***Sut hoffech chi i'ch cymuned edrych yn y dyfodol?***

***Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?***

Mae Ffigur 14 yn grynodedb o'r themâu allweddol, sydd ym marn y bobl, yn arbennig am gymunedau yn Nhorfaen a'r hyn y credent fyddai'n eu gwneud yn lleoedd gwell.



Ffigur 14: Yr hyn y mae trigolion yn Nhorfaen yn dweud sy'n arbennig a'r hyn fyddai'n gwneud eu cymunedau yn well

## Asesiad Lles Blaenafon

| <b>C1 Beth sy'n arbennig am eich cymuned?</b> | <b>C2 Beth fyddai'n gwneud eich cymuned yn lle gwell?</b> | <b>C3 Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?</b> | <b>C4 Sut hoffech chi i'ch cymuned edrych yn y dyfodol?</b> | <b>C5 Sut gall eich cymuned weithio gyda ni i wneud i hynny ddigwydd?</b> |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad at fan agored<br>(30)                | Diogelwch cymunedol (<br>20)                              | Diogelwch cymunedol<br>(48)                       | Diogelwch cymunedol<br>(20)                                 | Ymgysylltiad cymunedol<br>(11)  |
| Cydlyniant cymunedol<br>(24)                  | Sbwriel<br>(15)   | Mynediad at wasanaethau<br>(15)                   | Ysbryd cymunedol<br>(16)                                    | Cydlyniant cymunedol<br>(4)   |
| Ysbryd cymunedol<br>(15)                      | Mesurau arafu traffig<br>(10)                             | Mynediad at weithgareddau<br>(14)                 | Mynediad at fan glân<br>(14)                                | Grwpiau cymunedol/Ysbryd<br>cymunedol/ Gwirfoddoli<br>(3)                 |

*Ffigur 15: Y tri phrif ymateb i Dorfaen*

Mae Ffigur 15 yn dangos y prif ymatebion i gwestiynau'r arolwg gan bobl sy'n byw yn Nhorfaen.

Dywedodd pobl sy'n byw ym Mlaenafon wrthym y byddai gwella diogelwch cymunedol, cyllid cymunedol a mynediad at fannau gwyrdd yn gwneud eu cymuned yn lle gwell.



## 8 Cyfeiriadau

- <sup>1</sup> Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG.
- <sup>2</sup> Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG.
- <sup>3</sup> Cofrestr Dreth Cyngor Torfaen. Mawrth 2021
- <sup>4</sup> Amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 SYG
- <sup>5</sup> ACB SYG 2019
- <sup>6</sup> ONS MYE 2019
- <sup>7</sup> Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>8</sup> Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>9</sup> Amcangyfrifon poblogaeth canol 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>10</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- <sup>11</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- <sup>12</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- <sup>13</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- <sup>14</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- <sup>15</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS204EW
- <sup>16</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS201EW
- <sup>17</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS209EW
- <sup>18</sup> Adolygiad terfyn cyflymder. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2014.
- <sup>19</sup> Arolwg Cyflymder. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2019.
- <sup>20</sup> Adolygiad terfyn cyflymder. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2014.
- <sup>21</sup> Coridor yr A465 'Blaenau'r Cymoedd', Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: Asesiad o'r farchnad o ran safleoedd ac adeiladau cyflogaeth presennol gydag argymhellion ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol o ran eiddo o flaenoriaeth, Sutton Consulting Ltd. 2021.
- <sup>22</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS605EW
- <sup>23</sup> Data Dangosol MALIC 2019, Llyw Cymru
- <sup>24</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl WU03UK\_MSOA
- <sup>25</sup> Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2018.
- <sup>26</sup> Arolwg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2021.
- <sup>27</sup> Asiantaeth y Swyddfa Brisio. 31 Mawrth 2021.
- <sup>28</sup> Asiantaeth y Swyddfa Brisio. 31 Mawrth 2021.
- <sup>29</sup> Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017: Adroddiad Tystiolaeth. Crynodeb i Gymru.
- <sup>30</sup> Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017: Adroddiad Tystiolaeth. Crynodeb i Gymru.
- <sup>31</sup> Cofrestr Homeseeker Torfaen. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2021.
- <sup>32</sup> Cofrestrfa Tir. 2020.
- <sup>33</sup> SYG (2020). Nomis.
- <sup>34</sup> Cofrestr Homeseeker Torfaen a chofrestr Help2Own Plus Torfaen. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2021
- <sup>35</sup> Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- <sup>36</sup> Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- <sup>37</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. 2020.
- <sup>38</sup> Pob Marwolaeth: Cyfraddau Marwolaeth (Safoni yn ôl Oedran) fesul 100K pob – Cyf. 3 bl, 2015-17. Healthmapswales.wales.nhs.uk
- <sup>39</sup> Pob Marwolaeth: Cyfraddau Marwolaeth (Safoni yn ôl Oedran) fesul 100K pob – Cyf. 3 bl, 2015-17. Healthmapswales.wales.nhs.uk
- <sup>40</sup> Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019). Llywodraeth Cymru
- <sup>41</sup> Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru -Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod - Cymru. Profïadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg y boblogaeth oedolion yng Nghymru – 2015.
- <sup>42</sup> Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru -Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod - Cymru. Profïadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg y boblogaeth oedolion yng Nghymru – 2015.

---

## Asesiad Lles Blaenafon

---

---

<sup>43</sup> Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru -Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod - Cymru. Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg y boblogaeth oedolion yng Nghymru – 2015.

<sup>44</sup> Hynt Disgyblion, Gyrfa Cymru, 2018-2020

<sup>45</sup> Hynt Disgyblion, Gyrfa Cymru, 2018-2020

<sup>46</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS601EW

<sup>47</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS601EW

<sup>48</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS601EW

<sup>49</sup> SYG (2011). Cyfrifiad. Tabl KS501EW

<sup>50</sup> [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

<sup>51</sup> [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

<sup>52</sup> Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Chris Blandford Associates. 2020.

<sup>53</sup> Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Chris Blandford Associates. 2020.

<sup>54</sup> Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017, Adroddiad Synthesis: blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

<sup>55</sup> Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017: Adroddiad Tystiolaeth. Crynodeb i Gymru.

<sup>56</sup> Cynllun Adfer Strategol ar gyfer Afon Lwyd. JBA Consulting. CNC 2020.

<sup>57</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (2021), Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer ar gyfer 2021.

<sup>58</sup> Gorchudd Coed y Dref ym Mwrdeistref Sirol Torfaen, 2016. CNC.

<sup>59</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Asesiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Crynodeb Annhechnegol. Ymddiriedolaeth Carbon. 2020

<sup>60</sup> Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Chris Blandford Associates. 2020.

<sup>61</sup> [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

<sup>62</sup> Arolwg Trigolion Torfaen (2017). Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

<sup>63</sup> [Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)